

Cyfle i ddysgu beth i'w wneud

Myfyriwch ar y pwnc a drafodwyd a meddwl sut y gallai'r pwnc hwn fod wedi'i gyflwyno yn eich gwaith gydag unigolion agored i niwed?
Gofynnwch a oes unrhyw berthnasedd mewn achosion rydych chi wedi gweithio arnynt neu sefyllfaoedd rydych chi wedi dod ar eu traws?
Beth fydddech chi wedi'i wneud gyda phryderon o'r fath wrth weithio gydag unigolion agored i niwed? A beth yw'r rhwystrau i ymarfer yn eich sefydliad?
Nodwch gymorth allweddol i chi'ch hun yn eich tîm.



Cyd-destun

Ystyriodd y Fforwm Proffesiynol Amlasiantaethol hwn achos person ifanc 17 oed a oedd yn derbyn gofal, pan gafwyd ef yn euog o drosedd dreisgar ddifrifol. Roedd y person ifanc wedi cael ei roi mewn gofal y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. Ystyriwyd meysydd arfer da a themâu dysgu, gan ddefnyddio gwybodaeth gan y gwasanaethau cymdeithasol, y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, yr heddlu, lleoliadau preswyl, llysoedd a gweithwyr cymorth y trydydd sector.

Cynhaliwyd tair sesiwn gynllunio ac yna un Sesiwn Ymarfer Myfyriol a alluogodd ymarferwyr a oedd yn gweithio gyda'r person ifanc hwn i fyfyrto ar feysydd ymarfer amlasiantaethol a themâu dysgu.

Roedd y person ifanc hwn yn berson coll rheolaidd agored i niwed. Fe wnaeth y llinell amser a ystyriwyd amlygu pryderon mewn perthynas â chyfnodau o ymgysylltu a gollwyd ac amrywiol, camddefnyddio cyffuriau, ymddangosiadau o flaen y llys, llinellau cyffuriau ac ymddygiad/cymdeithion.

Thema Dysgu 1 - Perthynas â Gweithiwr Proffesiynol dibynadwy

- Amlygodd yr achos hwn y pwysigrwydd o nodi gweithiwr proffesiynol cyson, dibynadwy i ymgysylltu â'r person ifanc, yn enwedig pan fydd llawer o asiantaethau'n cymryd rhan yn ddyddiol. Yr ystyriaeth bwysig yw sut i gynorthwyo staff i reoli a hyrwyddo'r math hwn o berthynas waith ddbynadwy.
- Mae'n fuddiol sicrhau ymwybyddiaeth dda o effaith symudiadau a newidiadau staff a cheisio atal hyn pan fo hynny'n bosibl.
- Yn ogystal, dylid ceisio cadw'r un gweithiwr, neu ddychwelyd i'r un gweithiwr, pan fo perthynas effeithiol wedi'i sefydlu, unwaith eto pan fo hynny'n bosibl.

Mae sesiynau briffio 7 munud pellach yn ymwneud ag ystod o bynciau diogelu, darparu cyfleoedd dysgu ac awgrymiadau i ymarferwyr ar gael ar y wefan ganlynol:

www.gwentsafeguarding.org.uk/cy/Home.aspx

Thema Ddysgu 4 - Gweithio trawsffiniol

- Dangosir arfer effeithiol wrth weithio trawsffiniol yn yr achos hwn. Gwelwyd enghreifftiau fel tîm cynnal/gofalu y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwasanaethu mwy na rôl ffwrdd-â-hi, gyda chyfrifoldebau a nodwyd a darparu gwybodaeth leol, gyda chydweithio da.
- Roedd cyfathrebu da rhwng Gwasanaeth Troseddau Ieuencid y cartref a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid gofalu hefyd yn nodwedd wrth ddarparu ymyrraeth i geisio rheoli'r risgiau a oedd yn dod yn amlwg.
- Nodwedd allweddol o'r achos hwn oedd ymdeimlad y person ifanc o anorchfygolrwydd o gamau cosbol, gyda dychwelyd i'r llys yn aml yn dilyn camau torri amodau a nifer o orchmynion ymgymryd â gwaith di-dâl er budd y gymuned yn cael eu hychwanegu at y gorchymyn presennol. Mae'n amlwg, mewn achosion fel hyn, bod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn cael ei lywio i raddau helaeth gan ganllawiau dedfrydu ac argymhellion gan asiantaethau partner wrth ystyried dedfrydau priodol. Fodd bynnag, gallai dealltwriaeth gref o rolau, cylch gwaith a chyfrifoldebau asiantaethau, ynghyd â'u cyfyngiadau, helpu i atal rhwystrigaethau rhyngasiantaethol.
- Gall ymarfer mapio a awgrymir gyda'r holl asiantaethau dan sylw helpu i sicrhau bod rolau asiantaethau penodol yn cael eu deall yn glir.

Thema Ddysgu 2 - Pontio i fod yn oedolyn:

- Roedd pwysigrwydd helpu pobl ifanc gyda phontio o blentynod i fod yn oedolion yn nodwedd o'r achos hwn. Cyflwynwyd ymddygiadau heriol ar ffurf y cynnydd mewn cyfnodau a gollwyd ac ymddieithrio. Efallai bod y rhain wedi bod yn groes i bryderon mewnol y person ifanc sy'n gysylltiedig â dod yn oedolyn, a roddodd argraff gamarweiniol o'r cymorth a allai fod ei angen.

Thema Dysgu 3 - Casglu gwybodaeth a chyfathrebu

- Mae arfer effeithiol yn yr achos hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ac ar draws ffiniau (ffiniau triphlyg yn yr achos hwn), goruchwyliaeth reoli gref a chyfathrebu cyson rhwng lleoliadau preswyl ac asiantaethau eraill.
- Nodwyd hefyd feysydd dysgu mewn perthynas â chasglu gwybodaeth, gweld y darlun ehangach a chyfathrebu, yn yr achos hwn. Un awgrym yw y byddai cronoleg amlasiantaethol yn galluogi'r holl asiantaethau dan sylw i ddeall pa wybodaeth arall sydd ar gael.
- Gallai defnyddio gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau i gasglu gwybodaeth feddalach helpu i ddarparu ymateb mwy cymesur i rai o'r ymddygiadau sy'n dod i'r amlwg ac sy'n awgrymu ymwneud â gangiau, risgiau o gamfanteisio neu linellau cyffuriau. Gall bygwth tynnu trwyddedau oddi wrth fusnesau, ceisio tarfu ar sefydliadau troseddol neu weithgareddau troseddol a defnyddio gwybodaeth feddal fod yn effeithiol hefyd..
- Gellir ystyried risgiau o gamfanteisio yn ehangach hefyd. Wrth gynnwys gwybodaeth feddalach, gellid bod wedi archwilio ymhellach i bob math o gamfanteisio, gan gynnwys plant troseddol yn ogystal â llinellau cyffuriau.
- Mae angen cydbwysedd hanfodol wrth ddiogelu pobl ifanc rhag niwed, osgoi troseddoli plentyn sy'n derbyn gofal ond hefyd sicrhau bod eraill a allai fod mewn perygl hefyd yn cael eu diogelu. Mewn achosion tebyg, byddai'n werth defnyddio timau'r trydydd sector yn y gymuned gymaint â phosibl sy'n aml yn darparu darluniau cyfoethocach o gymdeithasau, rhwydweithiau a risgiau.